# Awdurdod Parc Cenedlaethol
## 30 Gorffennaf 2025

**<u>Yn bresennol (o hirbell)</u>**
Dr M Havard (Cadeirydd)
Cynghorydd S Alderman, Cynghorydd M Bowen, Cynghorydd D Clements, Cynghorydd T Evans, Cynghorydd C George, Cynghorydd SL Hancock MBE, Mrs S Hoss, Cynghorydd M James, Mr GA Jones, Dr R Plummer, Cynghorydd S Skyrme-Blackhall, Cynghorydd V Thomas, Cynghorydd A Tinley, a'r Cynghorydd C Williams BEM.

**<u>Hefyd yn bresennol:</u>**
Catrin Evans (Pennaeth Cyllid a Chodi Arian), Heledd Davies (Cyfieithu ar y pryd), Emma Gladstone (Rheolwr Polisi Strategol), Georgia Jones (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd), Tegryn Jones (Prif Weithredwr), Mike Kent (Swyddog Monitro), Caroline Llewellyn (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd) a Mair Thomas (Swyddog Perfformiad a Chydymffurfio).

[Cyfarfod ar-lein, 10.00am – 13.03pm]

**1. Ymddiheuriadau**
Daeth ymddiheuriad o absenoldeb wrth y Cynghorydd B Price.

**2. Datgelu buddiant**
Datgelodd y Cynghorwyr V Thomas, D Clements, T Evans, C Williams ac A Tinley fuddiant yn adroddiad 32/25, Ariannu Croeso Sir Benfro.

Datgelodd y Cynghorydd S Alderman fuddiant yn adroddiad 30/25, Adroddiad Monitro Fframwaith Partneriaeth Blynyddol 2024/25 a chymeradwyo Fframwaith Partneriaeth.

**Nodwyd.**

**3. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 18 Mehefin 2025 (Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol a'r Cyfarfod Cyffredin) i'w cadarnhau a'u dilysu.

Yn dilyn cynnig gan Dr R Plummer, wedi'i eilio gan y Cynghorydd S Skyrme-Blackhall, **penderfynwyd** cadarnhau a dilysu'r cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 18 Mehefin 2025 (Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol a'r Cyfarfod Cyffredin).

**4. Cofnod Gweithredu a Materion yn Codi**
Nododd yr Aelodau'r cofnod gweithredu.

**Nodwyd.**

[Ymunodd y Cynghorydd C Williams â’r cyfarfod yn y fan hon].

**5. Cyhoeddiadau’r Cadeirydd**

Cychwynnodd y Cadeirydd trwy wahodd Aelodau i gymryd rhan mewn Taith Gerdded Llesiant sydd wedi’i threfnu ar 12 Medi. Awgrymwyd y dylai pwy bynnag fyddai â diddordeb gysylltu â’r tîm Gwasanaethau Democrataidd.

Adroddodd y Cadeirydd ei bod wedi mynychu’r achlysuron/cyfarfodydd canlynol yn ystod y mis aeth heibio:

- Cyfarfod Parc Cenedlaethol Cymru gyda Huw Irranca-Davies, Dirprwy Prif Weinidog Cymru
- Agoriad arddangosfa Môrwelion / The Sea Horizon yn Oriel y Parc, lle’r oedd Prif Swyddogion Amgueddfa Cymru hefyd yn bresennol
- Cyfarfod Ymgyrch Parciau Cenedlaethol lle trafodwyd syniadau ynghylch Parciau Cenedlaethol Morol
- Sioe Frenhinol Cymru lle bu’n mynychu nifer o achlysuron ar ran yr Awdurdod oedd yn cynnwys achlysur i hyrwyddo cynllun Ffermio Bro
- Seremoni Gwobrwyo Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro (PODS) oedd yn dathlu llwyddiannau Ysgol Aberdaugleddau. Roedd yr achlysur hefyd yn gyfle i ddathlu cyfraniad Graham Peake, Cadeirydd Partneriaeth PODS Partnership, gan ei fod ar fin ymddeol.

Ychwanegodd y Cadeirydd ei bod wedi cefnogi Llywodraeth Cymru i benodi Aelodau. Esboniodd bod cyfweliadau wedi’u cynnal gyda nifer o ymgeiswyr ardderchog.

Adroddodd y Cynghorydd D Clements, a oedd yn gyn-gadeirydd, ei bod wedi cynrychioli’r Awdurdod ar ymweliad ag Ynys Sgomer. Esboniodd bod effeithiau negyddol llygredd golau wedi’i drafod ac roedd angen gwirfoddolwyr ar draws y sir i gynorthwyo adar oedd wedi gwyro oddi ar eu llwybrau hedfan gan lygredd golau.

**Nodwyd.**

[Ymunodd y Cynghorydd A Tinley â’r cyfarfod yn ystod ystyriaeth o’r eitem ganlynol.]

6. **Adroddiadau o gyfarfodydd amrywiol Bwyllgorau'r Awdurdod**
Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol o nifer o gyfarfodydd Pwyllgorau'r Awdurdod gerbron yr Aelodau i'w hystyried:
   i) Pwyllgorau Rheoli datblygu a gynhaliwyd ar 21/05/25 a 18/06/25
   ii) Fforwm Gweithwyr Cyflogedig a gynhaliwyd ar 12/03/25
   iii) Pwyllgor Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol ac Archwilio a gynhaliwyd ar 14/05/25
   iv) Pwyllgor Adolygu Gweithredu a gynhaliwyd ar 11/06/25
   v) Panel Penodi Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 17/06/25

**Penderfynwyd** derbyn cofnodion y Pwyllgorau y cyfeirir atyn nhw uchod.

7. **Penodi Aelod**
Adroddodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd bod yna le gwag ar Fforwm Cynghorol Coleg Sir Benfro ar gyfer cynrychiolydd o'r Awdurdod a mynegwyd diddordeb gan y Cynghorydd M James i gymryd y gwahoddiad.

Yn dilyn cynnig gan y Cynghorydd S Hancock MBE, wedi'i eilio gan y Cynghorydd S Skyrme-Blackhall, **penderfynwyd** penodi'r Cynghorydd M James yn aelod o Fforwm Cynghorol Coleg Sir Benfro.

8. **Cynllun Adnoddau Corfforaethol a Chyflenwi wedi'u diwygio**
Cyflwynodd y Swyddog Perfformiad a Chydymffurfio Cynllun Adnoddau Corfforaethol a Chynlluniau Cyflenwi wedi'u diwygio i'r Aelodau i'w cymeradwyo.

Adroddwyd bod angen cynnal adolygiad blynyddol o'r cynlluniau yn ystod fframwaith amser y cynlluniau, ac er bod yna fân ddiwygiadau wedi'u hychwanegu i'r cynlluniau eisoes, fel rhan o'r broses hon, gwnaed adolygiad mwy manwl yn 2025. Esboniodd y Swyddog bod yr adolygiad wedi cymryd ystyriaeth o'r gymeradwyaeth a roddwyd i'r Cynllun Partneriaeth, diweddariadau ariannu prosiectau, adolygiad o gynnydd a blaenoriaethau arweinyddiaeth prif swyddogion, gwasgfeydd ariannol a gwytnwch, ardaloedd risg, gwersi a ddysgwyd o'r ddwy flynedd gyntaf o weithredu, a'r cyflwyniad arfaethedig o Ddangosyddion newydd Llywodraeth Cymru.

Tanlinellwyd bod peth adborth gan Aelodau eisoes wedi'i gyfleu yn uniongyrchol i'r Swyddog perthnasol, ac ychwanegodd y Cadeirydd y byddai hithau hefyd yn anfon ei sylwadau at y Swyddog trwy e-bost i'w hystyried.

Cytunodd yr Aelodau bod yr eirfa acronym a welir ar derfyn yr adroddiad yn ddefnyddiol ac awgrymwyd y dylid cynnwys geirfa debyg ar derfyn adroddiadau eraill hefyd.

Yn dilyn cynnig gan Dr R Plummer, wedi'i eilio gan y Cynghorydd D Clements **penderfynwyd**:

a) cymeradwyo Cynllun Adnoddau Corfforaethol 2023/24-26/27 (Adolygwyd 2025) a darparu awdurdod wedi'i ddirprwyo i swyddogion gyflwyno unrhyw mân ddiwygiadau a gytunwyd yn ystod y cyfarfod neu gynnwys yn ôl yr angen unrhyw fân newidiadau fydd angen (e.e. camgymeriadau teipio, cywiriadau ffeithiol), a diwygiadau fydd eu hangen yn dilyn cytundeb terfynol Dangosyddion Llywodraeth Cymru.
b) cymeradwyo'r Cynlluniau Cyflenwi wedi'u hadolygu ac awdurdod wedi'i ddirprwyo i'w ddarparu i swyddogion gyflwyno unrhyw mân ddiwygiadau a gytunwyd yn ystod y cyfarfod neu gynnwys yn ôl yr angen unrhyw fân newidiadau fydd angen (e.e. camgymeriadau teipio, cywiriadau ffeithiol), a diwygiadau fydd eu hangen yn dilyn cytundeb terfynol Dangosyddion Llywodraeth Cymru.

**9. Adroddiad Monitro Fframwaith Partneriaeth Blynyddol 2024/25 a chymeradwyo Fframwaith Partneriaeth**

Cyflwynodd y Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiad adroddiad yn darparu trosolwg o bartneriaethau strategol allweddol roedd yr Awdurdod wedi bod yn rhan ohonyn nhw, wrth gefnogi ei flaenoriaethau strategol ehangach. Roedd yr adroddiad yn cynnwys Fframwaith Partneriaeth wedi'i gyflwyno mewn format drafft ar y cyd ag adroddiad y llynedd, ac ers hynny roedd wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu newidiadau yn dilyn cymeradwyo'r Cynllun Partneriaeth yng nghyfarfod mis Mawrth 2025 o Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Esboniwyd bod sicrhau Fframwaith Partneriaeth yn ei le yn cynorthwyo i gefnogi llywodraethiant da a rheolaeth risg i'r Awdurdod wrth ymwneud â phartneriaid. Gofynnid i'r Aelodau i gymeradwyo'r fframwaith yn ffurfiol.

Holodd un Aelod p'un a ddylid cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru yn y rhestr o Bartneriaid yn yr adroddiad ac fe nodwyd hyn gan y Swyddog wrth iddo gytuno i drafod gyda'r Tîm Rheoli p'un a oedd y rhestr o Bartneriaid yn gyfredol.

Holodd un Aelod p'un a oedd adborth wedi'i chwennych wrth Bartneriaid ynghylch eu profiad hwy o weithio gyda'r Awdurdod i ganfod unrhyw agweddau posib o welliant. Cytunodd y Swyddog i ymholi ynghylch hyn gyda Thîm Rheoli'r Awdurdod.

Nodwyd bod y statws Coch, Melyn a Gwyrdd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad ar gyfer pob partneriaeth ynghyd â'r statws cyffelyb yn 2023/24. Manylodd yr adroddiad bod y mwyafrif o'r partneriaethau mewn

statws gwyrdd a dim ond pedwar mewn statws melyn, dau ohonyn nhw yn ymwneud â Chyngor Sir Penfro (CSP) a'r Grŵp Gweithredu Tai Bach. Mewn ymateb i ymholiad gan un Aelod cadarnhaodd y Swyddog bod y bartneriaeth gyda Chyngor Sir Penfro mewn melyn oherwydd cyfyngder galluoedd yr Ecolegydd Cynllunio ar y cyd, ond, fodd bynnag, yn dilyn recriwtio diweddar roedd y tîm bellach yn gyflawn. Ychwanegwyd bod y pwysau yn dal yn y maes hwn er y recriwtio diweddar. O ran y Grŵp Gweithredu Tai Bach esboniodd y Prif Weithredwr bod y bartneriaeth hon mewn melyn oherwydd cymhlethdod ynghylch y sefyllfa ariannu oedd yn gysylltiedig, ac am nad oedd yna fawr o gynnydd wedi'i wneud i ddelio â'r mater roedd y grŵp wedi'i sefydlu i ddelio â'r mater. Ychwanegodd bod gwaith cadarnhaol wedi'i gyflawni o ran nodi datrysiadau amgen ynghylch sut i symud ymlaen.
Yn dilyn cynnig gan Dr R Plummer, wedi'i eilio gan y Cynghorydd S Hancock MBE, **penderfynwyd**:

a) nodi Adroddiad Monitro Fframwaith Partneriaeth Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2024/25
b) cymeradwyo'r Fframwaith Partneriaeth a dirprwyo awdurdod i'r swyddogion i gynnwys unrhyw mân ddiwygiadau a gytunwyd yn ystod y cyfarfod.

## 10. Cytundeb Partneriaeth Oriel y Parc gydag Amgueddfa Cymru

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad yn chwennych cymeradwyaeth yr Aelodau i adnewyddu'r Cytundeb Partneriaeth pum mlynedd rhwng Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP) ac Amgueddfa Cymru (AC).

Adroddwyd bod y cytundeb partneriaeth yn llywodraethu'r trefniadau gwaith o ddydd i ddydd rhwng APCAP ac AC oedd yn sail i'r gweithrediadau yn Oriel y Parc (OyP), yn gyswllt i'r rhaglen arddangosiadau yn y brif oriel ac achlysuron/marchnata cysylltiedig. Roedd yr adroddiad yn egluro bod swyddogion ar draws APCAP ac AC yn cydweithio i gyd-guradu arddangosfeydd yn OyP oedd yn cyflenwi bwriadau a chanlyniadau cytûn, fel roedd wedi'i amlinellu yn y cytundeb, gan ddangos deunydd ar draws Casgliad Cenedlaethol Cymru.

Esboniodd y Prif Weithredwr bod gan APCAP ac OyP Gytundeb Partneriaeth ers dros bymtheg mlynedd a bod y cytundeb wedi'i adolygu ddiwethaf yn 2019 ar gyfer cyfnod o bum mlynedd.

Holodd un Aelod pa mor ddibynnol oedd y cytundeb pum mlynedd ar arian cyhoeddus. Atebodd y Prif Weithredwr, er bod cymalau yn y cytundeb ar gyfer y ddau gorff pe bai ariannu yn fater o bryder, roedd

APCAP yn ffyddiog y byddai’r cytundeb yn gadarn dros y pum mlynedd nesaf am fod y bartneriaeth yn bwysig i’r ddau gorff.

Cafwyd trafodaeth ynghylch arddangosfeydd posib yn y dyfodol yn yr oriel am fod un Aelod yn cofio bod yr Awdurdod yn y gorffennol wedi sicrhau partneriaeth gyda’r Tate Modern, a gofynnodd a fyddai cyfleoedd tebyg yn debyg o godi yn y dyfodol. Atebodd y Prif Weithredwr bod y bartneriaeth gyda’r Tate Modern wedi’i hwyluso gan Amgueddfa Cymru, ac y byddai’r Awdurdod yn agored i gydweithio â mwy o bartneriaid yn y dyfodol.

Yn dilyn cynnig gan y Cynghorydd S Hancock MBE, wedi’i eilio gan y Cynghorydd D Clements, **penderfynwyd** cymeradwyo adnewyddu ‘r Cytundeb Partneriaeth pum mlynedd rhwng Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac  Amgueddfa Cymru.

**11. Cefnogaeth i Croeso Sir Benfro (Visit Pembrokeshire) 2026/29**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad yn chwennych barn yr Aelodau ynghylch p’un a fydden nhw am ddarparu cymorth ariannol i Croeso Sir Benfro hyd at 2029.

Adroddwyd bod yr Awdurdod ym mis Chwefror 2020 wedi cytuno i gefnogi sefydlu VP fel Sefydliad Marchnata Cyrchfan ar gyfer Sir Benfro fel sefydliad yn gweithredu ar ei ben ei hun yn cael ei arwain gan y fasnach wyliau. Yn ychwanegol i gefnogi’r egwyddor o sefydlu’r sefydliad newydd a chytuno i benodi Cyfarwyddwr yn aelod o’r Bwrdd, roedd yr Awdurdod, yn wreiddiol, wedi cytuno i roi cefnogaeth mewn da dros gyfnod o bum mlynedd ond, yn ddiweddarach, wedi cytuno, ar anogaeth VP, y byddai’n bosib darparu cefnogaeth ariannol yn lle hynny. Eglurodd yr adroddiad y byddai’r cytundeb ariannu presennol yn dod i ben yn 2025 a thra bod cynnydd da wedi’i wneud i leihau’r cyfraniad sector gyhoeddus

i VP, ni ystyrid y byddai'n bosib i'r sefydliad barhau yn ei ffurf bresennol heb gyfraniad sector gyhoeddus bellach dros y blynyddoedd i ddod. Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at fanteision ac anfanteision darparu cefnogaeth bellach i VP er mwyn cynorthwyo'r Aelodau i benderfynu.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys pedwar dewis posib i'r Aelodau eu hystyried ynghylch sut y gallai'r Awdurdod symud ymlaen, ac roedd y rhain yn cynnwys:

a) Dim cefnogaeth bellach i'w ddarparu i VP
b) Parhau i gefnogi yn ôl y gyfradd bresennol o £25,000
c) Parhau i ddarparu cefnogaeth ond ar raddfa llai
d) Parhau i ddarparu arian i VP ond ar raddfa lai dros gyfnod o amser

Bu'r Aelodau yn lleisio eu barn ar ba ddewisiadau roedden nhw'n eu ffafrio, ac roedd rhai Aelodau yn dweud y dylai agwedd yr Awdurdod fod yr un fath ag eiddo Cyngor Sir Penfro oedd hefyd yn cefnogi VP. Roedd yr Aelodau yn cydnabod y buddiannau dros barhau i gefnogi VP a chytunwyd bod y sefydliad wedi tyfu'n sylweddol ers ei ffurfio, er gwaethaf heriau megis y pandemig.

Er gwaethaf llwyddiannau'r sefydliad holodd un Aelod p'un a ddylai VP ddilyn model mwy cynaliadwy o ystyried ei ddibyniaeth ar arian cyhoeddus. Atebodd y Cynghorydd D Clements, Cyfarwyddwr yr Awdurdod ar VP, trwy ddweud bod y Bwrdd yn cynnal ymchwil rheolaidd i fodelau trefniadaeth Sefydliadau Rheoli Cyrchfannau (SRhC) eraill yn rheolaidd ond y farn oedd mai'r model presennol oedd y mwyaf priodol o ran anghenion Sir Benfro. Ychwanegodd y Prif Weithredwr bod VP, yn ei ffurf bresennol, yn cymryd agwedd gytbwys, yn hytrach na'i fod yn cael ei arwain yn llwyr gan y byd masnach.

Cynigiodd y Cynghorydd D Clements Opsiwn 3, ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd T Evans. Cafodd diwygiad i'r cynnig hwn yn ffafrio Opsiwn 2 ei roi gerbron wedyn gan y Cynghorydd M Bowen, wedi'i eilio gan y Cynghorydd S Hancock; rhoddwyd y diwygiad i bleidlais ac fe'i cariwyd.

[Gohiriwyd y cyfarfod rhwng 12:01pm – 12:10pm]

Nododd y Swyddog Monitro gan fod y diwygiad bellach yn gynnig gwreiddiol roedd angen pleidlais bellach ynghylch y cynnig y dylai'r

Awdurdod barhau i ariannu yn ôl y gyfradd bresennol o £25,000 (Opsiwn 2) ac fe gafodd hwn ei gario.

**Penderfynwyd** y dylai'r Awdurdod barhau i ariannu yn ôl y gyfradd bresennol o £25,000 (Opsiwn 2).

**12. Cynllun Datblygu Lleol 2 – Cyfarwyddyd Cynllunio Ychwanegol**

Cyflwynodd y Rheolwr Polisi Strategol adroddiad yn chwennych cymeradwyaeth yr Aelodau i drefnu ymgynghoriad cyhoeddus ar bedwar o Ddogfennau Cyfarwyddyd Cynllunio Ychwanegol (CC) drafft fyddai'n cael eu defnyddio fel ystyriaethau perthnasol wrth ddelio â cheisiadau cynllunio. Roedd yr adroddiad yn darparu manylion pellach ynghylch cefndir y CC, y pedwar pwnc ystyriwyd wrth baratoi'r CC drafft, manylion yr ymgynghoriad arfaethedig a manylion cyd-destun y polisi strategol.

Mynegodd un Aelod bryder ynghylch hyd yr ymgynghoriad arfaethedig (chwe wythnos) am y gallai hyn olygu mai prin iawn fyddai'r ymateb o ystyried y byddai'n gyfnod yr haf. Cytunodd y Swyddog i ymestyn y cyfnod y tu hwnt i chwe wythnos pe bai'r ymgynghoriad yn digwydd yn ystod cyfnod yr haf.

O ran codi anheddau yn lle'r rhai presennol holodd y Cadeirydd p'un a oedd ail-ddefnyddio deunyddiau a lleihau gwastraff yn cael sylw yn y dogfennau cyfarwyddyd. Cytunodd y Swyddog i sicrhau y byddai geiriad addas yn cael ei ddefnyddio wrth ddelio â'r mater.
Yn dilyn cynnig gan Dr R Plummer, wedi'i eilio gan y Cynghorydd S Hancock MBE, **penderfynwyd**:

a) Cymeradwyo'r dogfennau cyfarwyddyd cynllunio ychwanegol drafft ar gyfer ymgynghori:
   - Addasiadau yng nghefn gwlad (Atodiad A)
   - Anheddau yn lle'r rhai presennol yng nghefn gwlad (Atodiad B)
   - Cyfarwyddyd Arfer Da Cadwraeth a Hyrwyddo Wybrennau Tywyll ynghyd â nodyn o esboniad (Atodiad C)
   - Tai Fforddiadwy (Atodiad D)

b) Darparu awdurdod wedi'i ddirprwyo i'r Rheolwr Polisi Strategaeth i wneud gwaith golygu bychan pellach i sicrhau bod fformatio'r dogfennau yn cydymffurfio ag anghenion hygyrchedd a gosod ffotograffau a lluniadau perthnasol cyn ymgynghori.

**13. Rheolau Sefydlog Contractio a Chaffael**

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid a Chodi Arian adroddiad yn chwennych cymeradwyaeth yr Aelodau i'r Rheolau Sefydlog Contractio (RhSC) diwygiedig oedd wedi'u diweddaru i adlewyrchu Deddf Caffael newydd y DU 2023 a ddaeth i rym ar 24 Chwefror 2025. Roedd yr adroddiad yn

cynnwys rhagor o wybodaeth gefndirol ac yn tanlinellu newidiadau allweddol.

Nodwyd bod un o'r newidiadau allweddol yn ymwneud ag Eithriadau ac yn y dyfodol byddai'r rhain yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn flynyddol. Awgrymodd un Aelod y dylid cyflwyno'r Eithriadau yn amlach ac felly cytunwyd y byddai'r rhain yn cael eu cyflwyno gerbron y Pwyllgor Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol ac Archwilio yn chwarterol ac yn flynyddol gerbron Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

Gofynnodd un Aelod p'un a oedd y ddeddf caffael newydd yn debyg o effeithio ar weithred tender sengl ac fe gytunodd y Swyddog i ymchwilio ymhellach i hyn.

Yn dilyn cynnig gan Dr R Plummer, wedi'i eilio gan Dr M Havard, **penderfynwyd** mabwysiadu Rheolau Sefydlog Contractio (Gorffennaf 2025) oedd wedi'u diwygio.

**14. Fframwaith Hunan Werthuso Cefnogaeth Aelodau Cymru ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (APC)**

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd adroddiad yn chwennych cefnogaeth yr Aelodau ar gyfer Fframwaith Hunan Werthuso Cefnogaeth Aelodau oedd wedi'i gynnig. Adroddwyd bod y fframwaith wedi'i seilio ar Fframwaith Hunan Werthuso Cefnogaeth Cynghorwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a'i fwriad oedd darparu mecanwaith i APC i sicrhau bod y gefnogaeth fwyaf priodol ar gael i'w Aelodau. Roedd yr adroddiad hefyd yn chwennych sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried gweithredu'r fframwaith oddi fewn i'r Awdurdod.

Esboniodd y Swyddog bod adroddiad wedi'i dderbyn oddi wrth Lywodraeth Cymru ynghylch datblygu fframwaith atebolrwydd ar gyfer holl aelodau'r APC; roedd hyn mewn ymateb i argymhelliad yn adroddiad Archwilio Cymru "Llywodraethiant Awdurdodau Parciau Cenedlaethol".  Awgrymwyd y dylai hwn hefyd gael ei ystyried gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

Cydnabu'r Aelodau bod defnydd o'r fframwaith yn fater gwirfoddol ond, fodd bynnag, roedden nhw'n cydnabod buddiannau'r fframwaith o ran clustnodi unrhyw agweddau posib o welliant, ac ar gyfer datblygiad Aelodau yn gyffredinol.

Yn dilyn cynnig gan y Cynghorydd D Clements, wedi'i eilio gan Dr R Plummer, **penderfynwyd**:

a) Rhoi cefnogaeth i Fframwaith Hunan Werthuso Cefnogaeth Aelodau Cymru ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol
b) Sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i ystyried gweithredu'r fframwaith oddi fewn Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
c) Neilltuo'r Aelodau canlynol yn aelodau o'r grŵp gorchwyl a gorffen: Dr M Havard, Cynghorydd D Clements, Dr R Plummer, Cynghorydd C George, Cynghorydd S Alderman a'r Cynghorydd M James.

**15. Cynllun Hyfforddi Datblygiad Aelod**

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y Cynllun Hyfforddi Aelodau ar gyfer 2025/26. Roedd y cynllun hyfforddi yn darparu fframwaith er mwyn darparu hyfforddiant i Aelodau gydol y flwyddyn a fyddai'n rhoi iddyn nhw'r sgiliau a'r wybodaeth a fyddai yn eu galluogi i gyflawni penderfyniadau mwy gwybodus.

Esboniodd y Swyddog bod y cynllun hyfforddiant wedi'i seilio ar Adolygiadau Datblygiad Personol ond, yr un pryd, roedd y cynllun yn ddigon hyblyg i ganiatáu ychwanegu pynciau ychwanegol gydol y flwyddyn.

Yn dilyn cynnig gan y Cynghorydd D Clements, wedi'i eilio gan Dr R Plummer, **penderfynwyd** mabwysiadu Cynllun Hyfforddi Aelodau 2025/26.

**16. Apwyntiad Pwyllgor Safonau**

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad a oedd yn chwennych sêl bendith yr Aelodau ar argymhelliad Panel Penodi'r Pwyllgor Safonau i benodi dau unigolyn i'r Pwyllgor Safonau. Esboniodd y Swyddog y broses recriwtio a'r rhesymwaith y tu ôl i argymhelliad y panel penodi.

Yn dilyn cynnig gan Dr R Plummer, wedi'i eilio gan y Cynghorydd D Clements, **penderfynwyd** cefnogi argymhelliad Panel Penodi'r Pwyllgor Safonau ac fe gwblhawyd y broses o benodi Mr R Pryce Lewis a Mr L Freeman am gyfnod o bum mlynedd yn dechrau ar 30 Gorffennaf 2025.

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Awdurdod y Parc Cenedlaethol a gynhaliwyd ar 10/09/2025 heb eu diwygio. |